OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1559 (Cy.154)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*24 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 11, 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a pharagraffau 21 a 24 o Atodlen 2 iddi(**1**) yn gwneud Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn;

"Byrddau newydd" ("*new Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol hynny a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen;

"hen Fyrddau" ("*old Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol hynny a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen;

ystyr "Bwrdd newydd perthnasol" ("*relevant new Board*") mewn perthynas â hen Fwrdd a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen, yw'r Bwrdd newydd a bennir yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r hen Fwrdd hwnnw;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Hydref 2009;

Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai

2. Trosglwyddir unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen Fwrdd i'r Bwrdd newydd perthnasol ar y dyddiad trosglwyddo.

Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau

3. Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau hen Fwrdd, i'r graddau na chyfeirir atynt yn erthygl 2, i'r Bwrdd newydd perthnasol gan gynnwys heb gyfyngiad

(**1**) 2006 p. 42.

y ddyletswydd i baratoi'r cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen Fwrdd a chyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny.

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2009